



Dysgu yn y sector cyfiawnder


Yn gyffredinol, mae gallu manteisio ar weithgareddau addysgol yn cefnogi **lles** carcharorion yn dda, er bod dealltwriaeth staff o ADY cymhleth yn rhy amrywiol.

Cryfderau

- Mae'r gallu i fanteisio ar adnoddau fel offer celf a gweithgareddau addysgol yn helpu carcharorion i ymdopi â'u caethiwed ac yn cefnogi eu lles.
- Mae carchardai'n cynnig sesiynau ymsefydlu defnyddiol i ddysgwyr ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt ac yn asesu eu medrau llythrennedd a rhifedd i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyrsiau cywir. Maent yn olrhain eu cynnydd yn ofalus.

Meysydd i'w gwella

- Mae dealltwriaeth staff carchardai o sut i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cymhleth yn rhy amrywiol.
- Cafodd lleiafrif o ddysgwyr drafferth ymgysylltu â dysgu.



Mae'r rhan fwyaf o'r carcharorion sy'n manteisio ar addysg yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu **dysgu** ac yn elwa ar gwricwlwm eang a pherthnasol.

Cryfderau

- Trwy gymorth cryf gan staff a mentoriaid cymheiriaid, parhaodd llawer o garcharorion i fanteisio ar addysg yn ystod cyfnodau cyfyngiadau COVID-19.
- Mae'r rhan fwyaf o garcharorion sy'n manteisio ar addysg yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu dysgu.
- At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu mewn carchardai yn dda ac mae mentoriaid cymheiriaid yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynnydd addysgol eu cyd-garcharorion.
- Mae carchardai'n cynnig cwricwlwm eang a pherthnasol sy'n cysylltu'n agos ag anghenion cyflogwyr.

Meysydd i'w gwella

- Mewn rhai achosion, nid yw pobl ifanc sy'n manteisio ar gymorth gan y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn symud i lefelau uwch o hyfforddiant oherwydd eu medrau llythrennedd isel. Mewn achosion eraill, er gwaethaf y gallu gwell i fanteisio ar addysg, nid yw dysgwyr wedi gwneud cynnydd digonol.
- Nid oes gan wasanaethau prawf strategaethau digon clir i gynorthwyo i ddatblygu medrau pobl ifanc ac nid ydynt yn olrhain eu cynnydd yn ddigon da.



Gweithiodd **arweinwyr** mewn carchardai yn effeithiol i leihau effaith y pandemig a meithrin cysylltiad â phartneriaid i sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol perthnasol yn barhaus, er nad yw'r holl arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da.

Cryfderau

- Gweithiodd arweinwyr mewn carchardai yn effeithiol i sicrhau bod carcharorion yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig.
- Maent wedi meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol i wella rhagolygon cyflogaeth i garcharorion.
- Mae arweinwyr gwasanaethau troseddau ieuencid yn cydweithio'n dda â phartneriaid i helpu dysgwyr i symud ymlaen i lwybrau addysgol neu gyflogaeth priodol.

Meysydd i'w gwella

- Nid yw staff yn gwneud digon i herio carcharorion sy'n dewis peidio ag ymgysylltu ag addysg.
- Nid yw arweinwyr mewn gwasanaethau troseddau ieuencid yn gwerthuso effaith ymyriadau'n ddigon da nac yn cynllunio'n strategol i ddatblygu medrau pob unigolyn ifanc.

Defnyddiodd Arolygiaeth Prawf EM y dystiolaeth o'r adolygiad ar y cyd y cynhaliom â nhw ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i lunio canllaw arfer effeithiol. Mae'r canllaw yn cynnwys cwestiynau myfyriol i ymarferwyr werthuso effaith eu gwaith.

[Education, Training and Employment effective practice guide \(justiceinspectors.gov.uk\)](https://justiceinspectors.gov.uk)